| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

362/51

# DRAMA AC ASTUDIAETHAU'R THEATR

## DR2: Uned 2 Dadansoddi Cyfarwyddol

P.M. DYDD GWENER, 9 Mehefin 2006

(1½ awr)

| Cwestiwn | Arholwr yn unig |
|---|---|
| **1** | |
| **2** | |
| **3** | |
| **4** | |
| **CYFANSWM Y MARCIAU** | |

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Darllenwch y cyfarwyddiadau **yn ofalus** cyn ateb y cwestiynau. Gofynnir i chi ateb **pedwar** cwestiwn, felly dylech adael digon o amser ar gyfer pob cwestiwn.

Dylid ateb Cwestiwn 1 ar dudalennau 2, 3 a 4 y llyfryn ateb.

**D.S.** Mae'r penawdau priodol ar y tudalennau hynny.

Dylid ateb Cwestiynau 2 **a** 3 gyferbyn â'r sgript.

Dylid ateb Cwestiwn 4 ar dudalennau 10, 11 a 12 y llyfryn hwn.

Os bydd angen rhagor o bapur ar gyfer y cwestiwn hwn, a wnewch ei osod y tu mewn i'r llyfryn hwn.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Atgoffir chi ei bod yn angenrheidiol i chi ysgrifennu Cymraeg da a chyflwyno eich atebion yn drefnus.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Darllenwch yr olygfa ganlynol o *Not About Nightingales* gan Tennessee Williams.

Mae'r ddrama'n digwydd mewn carchar yn Pennsylvania, U.D.A. Mae'r darn yn ymwneud â phum carcharor sydd mewn cell gosbi o'r enw *'The Klondike'*.

Atebwch y cwestiynau canlynol sydd, gyda'i gilydd, yn gofyn i chi gyflwyno'ch syniadau fel cyfarwyddwr sy'n paratoi ar gyfer llwyfannu'r olygfa hon.

Cofiwch fod yn **rhaid** i chi gyflwyno'ch syniadau yn glir ac yn daclus.

**1.** Paratowch eich cynllun llwyfan cychwynnol a'ch syniadau cynllunio yn y rhannau priodol ar dudalennau 2, 3 **a** 4. Dylai hyn gynnwys **CYNLLUN LLAWR SYLFAENOL** wedi'i labelu, yn dangos lleoliad y gynulleidfa, y math o lwyfannu a set gan gynnwys defnydd o liw, cyfeiriad at yr awyrgylch, dodrefn, offer *(props)* a gwisgoedd. [20]

**2.** Gyferbyn â'r sgript, yn y golofn briodol, rhowch fanylion am symudiadau ar y llwyfan ar gyfer pob cymeriad sy'n cymryd rhan yn yr olygfa. Dylech sicrhau eich bod wedi nodi ar y sgript lle mae symudiadau'n digwydd. [10]

**3.** Gyferbyn â'r sgript, yn y golofn briodol, rhowch fanylion technegol am sain wedi'i recordio (os nad ydych yn defnyddio sain, rhowch resymau) a goleuo ar gyfer llwyfannu'r olygfa yn effeithiol. Cofiwch nodi eich ciws *(cues)* ar y sgript. [10]

**4.** Edrychwch ar araith Butch o *"Fe allwn ni os rhown ni drefn ar bethau!'* i *'Iawn, Joe?'*

Ar gyfer yr adran hon, pa gyngor lleisiol y byddech chi'n ei roi i actor sy'n ymarfer rhan Butch? *(Dylech gynnwys manylion am acen, rhythm, traw (pitch), tôn a'r cysylltiad rhwng y llais a'r cymeriad.)* Dylech ysgrifennu eich cyngor ar dudalennau 10 i 12 y llyfryn. [10]

**<u>Cynllun Llawr Sylfaenol / Lleoliad y Gynulleidfa</u>**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Math o Lwyfannu, Set, Lliw, Awyrgylch**

**Dodrefn / Offer** *(Props)*

**Gwisgoedd**

# TUDALEN WAG

**Dylech gyfeirio at Gwestiynau 2 a 3 ar Dudalen 2.**

*Mae'r golau'n codi ar y 'Klondike'. Mae'r waliau'n foel ac yn loyw gan wlybaniaeth. Mae rheiddiaduron ar hyd y waliau a chymylau o ager yn hisian wrth godi oddi arnynt bob hyn a hyn.*

**Joe:** Faint o'r gloch yw hi?

**Butch:** Sut ddiawl dylwn i wybod?

**Swifty:** Dŵr!. . . Dŵr!…

**Joe:** Tybed ydyn ni wedi bod 'ma drwy'r nos?

**Butch:** Wrth gwrs ein bod ni. Dw i'n gallu gweld golau dydd drwy'r twll.

**Joe:** Am faint o amser ro't ti yma'r tro 'na?

**Butch:** Tri deg chwech o oriau.

**Joe:** Uffern dân!

**Butch:** Ie. Ac ry'n ni 'mond wedi gwneud tua wyth.

**Swifty:** Dŵr!

**Butch:** Hei! Chi'n gwybod beth…beth ddwedodd yr hen ferch wrth y lleidr pan ddaeth…ddaeth hi o hyd iddo fe'n ceisio torri'r clo ar y…

**Joe:** Ydw.

**Queen:** Mae Swifty'n sâl. A finnau, hefyd. Pam does neb yn dod 'ma?

**Butch:** O, rwyt ti wedi clywed honna?

**Joe:** Do. Amser maith yn ôl, Butch.

**Butch:** Fe ddylet ti fod yn gwybod cwpwl o rai newydd.

**Joe:** Na. Dim rhai newydd, Butch.

**Butch:** Wel, dwed cwpwl o hen rai, myn uffern i!! Peidiwch â gorwedd fan 'na fel tasech chi'n barod i gael eich claddu! Beth am gael ychydig o fywyd yn y parti 'ma…Canwch! Canwch! Rwyt ti'n gwybod cwpwl o ganeuon da, Queenie, mae llais canu gyda ti! Dewch, fechgyn! Rhowch dipyn o fynd yn y canu! Canwch, canwch nerth eich pennau, fechgyn!

'Er gwaethaf pawb a phopeth,
Er gwaethaf pawb a phopeth,
Er gwaethaf pawb a phopeth
Ry'n ni yma o hyd!'

Canwch! Myn uffern i, canwch nerth eich pennau!

Examiner only
*Arholwr yn unig*

| Symudiad | LX (Goleuo) | SFX (Effeithiau Sain wedi'u recordio) |
|---|---|---|
| | | |



**Trosodd.**

**Swifty:** Dŵr!… Dŵr!… Dŵr!

**Queen:** Maen nhw'n rhoi mwy i ni! Pam nad y'n nhw'n rhoi'r gorau iddi nawr? Pam nad y'n nhw'n ein gadael ni mas?

**Swifty:** Dŵr!… Dŵr!…

**Butch:** Ydyn. Maen nhw'n codi'r gwres yn uwch. Ydyn, maen nhw'n codi'r gwres yn uwch. Yn Klondike ry'ch chi, chi'n gwybod. O, beth yw'r pwynt, y babis mam! Dewch, canwch!

'Calon lân yn llawn daioni
Tecach yw na'r lili dlos'

**Shapiro:** Allwn ni wneud dim am y peth, dim yw dim. Dw i'n un o bobl sy'n gyfarwydd â dioddefaint. Nid peth newydd yw e. Mae e yn fy ngwaed i ddioddef erledigaeth, trallod…

**Swifty:** Dŵr!…

**Shapiro:** …Rose?...Rose? Ti'n cofio'r eiddo ar South Maple Street? Mae'r cyfan yn dy enw di, cariad…

**Joe:** Gad i fi fynd at y twll awyr.

**Queen:** Dwyt ti ddim yn gadael neb arall i fynd ato fe!

**Joe:** Weli di ddim 'mod i'n tagu?

**Butch:** Rhaid i ni roi trefn ar y busnes 'ma. Rhowch y gorau i ymladd dros y twll awyr. O fan'na mae'r unig awyr sy'n werth ei anadlu'n dod. Rhaid i ni gymryd ein tro i'w anadlu fe. Ry'n ni wedi gwneud tua un deg chwech o oriau. Efallai gwnawn ni ddeg arall…

**Queen:** Wnawn ni byth mohoni!

**Butch:** **Fe allwn ni os rhown ni drefn ar bethau! Cadwch yn agos i'r llawr. Arhoswch mewn cylch o gwmpas y wal. Bydd pob un yn cymryd ei dro. Pymtheg eiliad. Falle, nes ymlaen, deg eiliad neu bum eiliad. Fi fydd yn cyfrif. A phan fydd rhywun yn colli'i limpyn – mae hi ar ben arno fe – dyna'i diwedd hi iddo fe – gwthiwch e o'r llinell. Nid safle cymorth cyntaf yw hwn – y Klondike yw e – a Duw a ŵyr – ry'n ni'n mynd i ddod drwyddi – Iawn? Iawn, Joe?**

**Joe:** Iawn.

**Swifty:** Dŵr!…

**Butch:** Iawn!…Gwthiwch y crwt lan 'ma gyntaf!…Iawn!

Examiner only
*Arholwr yn unig*

| Symudiad | LX (Goleuo) | SFX (Effeithiau Sain wedi'u recordio) |
|---|---|---|
| | | |

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**4.** Edrychwch ar araith Butch ar dudalen 8, sydd wedi'i brintio eto isod:

**Fe allwn ni os rhown ni drefn ar bethau! Cadwch yn agos i'r llawr. Arhoswch mewn cylch o gwmpas y wal. Bydd pob un yn cymryd ei dro. Pymtheg eiliad. Falle, nes ymlaen, deg eiliad neu bum eiliad. Fi fydd yn cyfrif. A phan fydd rhywun yn colli'i limpyn – mae hi ar ben arno fe – dyna'i diwedd hi iddo fe – gwthiwch e o'r llinell. Nid safle cymorth cyntaf yw hwn – y Klondike yw e – a Duw a ŵyr – ry'n ni'n mynd i ddod drwyddi – Iawn? Iawn, Joe?**

Ar gyfer yr adran hon, pa gyngor lleisiol y byddech chi'n ei roi i actor sy'n ymarfer rhan Butch? *(Dylech gynnwys manylion am acen, rhythm, traw (pitch), tôn a'r cysylltiad rhwng y llais a'r cymeriad.)* Dylech ysgrifennu eich cyngor isod, ac ar dudalennau 11 a 12. Os bydd angen rhagor o bapur, a wnewch ei osod y tu mewn i'r llyfryn hwn.

Examiner only
*Arholwr yn unig*



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*